18 Mai, 2021

***Llythyr at sylw rhieni disgyblion Blwyddyn 11**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Ysgrifennaf atoch er mwyn eich hysbysu o'r trefniadau ar gyfer yr wythnosau nesaf. Yn y man cyntaf, hoffwn ddiolch ichi a'ch plentyn am eich holl gefnogaeth a chydweithrediad yn ystod yr wythnosau diwethaf: mae disgyblion Blwyddyn 11 wedi ymateb yn arbennig o dda i'r her o gwblhau asesiadau yn eu dosbarthiadau.

Trefniadau wythnos nesaf:

Cynhelir asesiad olaf disgyblion Blwyddyn 11 (Rhifedd) ar Ddydd Iau, 27 Mai, rhwng 11.30yb a 12.30yp. Fe fydd hyn yn golygu y bydd modd i'r disgyblion adael y safle o 12.30yp ymlaen Ddydd Iau nesaf. Mae croeso ichi i wneud trefniadau er mwyn casglu eich plentyn o'r Ysgol am 12.30yp Ddydd Iau nesaf neu ganiatau i'ch plentyn gerdded adref, os maent yn byw yn nhref Llanbedr Pont Steffan.

Trefniadau dosbarthu canlyniadau dros dro Blwyddyn 11:

Fe fydd yr Ysgol yn e-bostio canlyniadau dros dro disgyblion Blwyddyn 11 iddynt (e-bost Hwb y disgyblion) erbyn 9.30yb ar Ddydd Mercher, 16 Mehefin. Dim ond canlyniadau cymwysterau bwrdd arholi CBAC bydd yn cael eu rhannu bryd hynny, bydd nifer o ganlyniadau cymwysterau pynciau galwedigaethol (bwrdd arholi Pearson) ddim yn cael eu rhannu tan Ddydd Iau, 12 Awst, 2021.

Fe fydd modd trefnu apwyntiad gydag aelod o Uwch Dîm Arwain Ysgol Bro Pedr ar Ddydd Iau neu Ddydd Gwener, 17 neu 18 Mehefin, os rydych chi a'ch plentyn am drafod y canlyniadau TGAU dros dro. Fe fyddwn yn danfon llythyr arall atoch gyda manylion ynglŷn â sut y mae gwneud yr apwyntiadau yma drwy School Cloud cyn 16 Mehefin.

Gyrfa Cymru:

Os rydych chi a'ch plentyn am arweiniad pellach parthed llwybrau ôl-16, yna mae croeso ichi i drefnu apwyntiad rhithiol gyda'r Swyddog Gyrfaoedd, Mrs Iona Lloyd-Davies: iona.lloyddavies@gyrfacymru.llyw.cymru

Bydd cofrestru ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11, sy'n symud ymlaen i Goleg Ceredigion ym mis Medi 2021, yn digwydd **rhwng 30ain Mehefin a 13eg Gorffennaf.** Bydd pob ymgeisydd i'r coleg sydd eisoes wedi'i gyfweld yn derbyn gwahoddiad drwy e-bost erbyn 18fed Mehefin i fynychu diwrnod cofrestru. Cysylltir trwy e-bost hefyd ag unrhyw ymgeiswyr sydd heb eu cyfweld eto adeg hynny, i fynychu cyfweliad cyn-cofrestru yn y coleg.

Bydd cofrestru ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11, sy'n symud ymlaen i Goleg Sir Gâr ym mis Medi 2021, yn digwydd **rhwng 30ain Mehefin a 13eg Gorffennaf.** Bydd pob ymgeisydd i'r coleg sydd eisoes wedi'i gyfweld yn derbyn gwahoddiad drwy e-bost erbyn 18fed Mehefin i fynychu diwrnod cofrestru. Cysylltir trwy

e-bost hefyd ag unrhyw ymgeiswyr sydd heb eu cyfweld eto adeg hynny, i fynychu cyfweliad cyn-cofrestru yn y coleg.

Am unrhyw fanylion pellach, croeso ichi i gysylltu gyda ni yn Ysgol Bro Pedr drwy e-bostio gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Pob dymuniad da i'ch plentyn yn ystod yr asesiadau sydd yn weddill a diolch ichi unwaith eto am eich parodrwydd i gydweithio gyda'r Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd anodd yma.

Yn ddiffuant,

Jane Wyn.

(Pennaeth)

18 May, 2021

***Letter for the attention of the parents of Year 11 pupils**

Dear Parent / Guardian,

I am writing to you to inform you of the arrangements for the coming weeks. In the first instance, I would like to thank you and your child for all your support and co-operation during the previous weeks: Year 11 pupils have responded very positively indeed to the challenge of completing assessments in their classrooms.

The arrangements for next week:

Year 11 pupils' final assessment (Numeracy) is scheduled for Thursday, 27 May, between 11.30am and 12.30pm. This means that the pupils will be able to leave the school site from 12.30pm onwards next Thursday. You are welcome to collect your child from school at 12.30pm next Thursday or you can give permission for your child to walk home, if they live in Lampeter.

Arrangements for distributing Year 11 pupils' temporary results:

The School will e-mail the Year 11 pupils their temporary results (pupils' Hwb e-mail addresses) by 9.30am on Wednesday, 16 June. Only the WJEC qualifications' results will be available to share then, many vocational subjects' results (Pearson exam board) won't be issued until Thursday, 12 August, 2021.

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

It will be possible to arrange an appointment with a member of Ysgol Bro Pedr's Senior Management Team on Thursday or Friday, 17 or 18 June, if you and your child wish to discuss the temporary GCSE results. We will send another letter before 16 June with instructions about how to arrange these appointments via School Cloud.

Careers Wales:

If you and your child wish to receive further guidance regarding post-16 routes, then you can arrange a virtual appointment with Mrs Iona Lloyd-Davies by e-mailing iona.lloyddavies@gyrfacymru.llyw.cymru

Enrolment for pupils in Year 11 progressing to Coleg Ceredigion in September 2021 will take place **between the 30th June and 13th July**. All college applicants who have already been interviewed will receive an invitation by e-mail by 18th June to attend an enrolment day. Any applicants still to be interviewed at that time, will also be contacted by email to attend a pre-enrolment interview at college.

Enrolment for pupils in Year 11 progressing to Coleg Sir Gâr in September 2021 will take place **between the 30th June and 13th July**. All college applicants who have already been interviewed will receive an invitation by email by 18th June to attend an enrolment day. Any applicants still to be interviewed at that time will also be contacted by email to attend a pre-enrolment interview at college.

For further details, you are welcome to contact us at Ysgol Bro Pedr by e-mailing gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Best wishes to your child during the remaining assessments and thank you once again for your willingness to work with the school during this difficult academic year.

Yours Faithfully,

Jane Wyn.

(Headteacher)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk